

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL Y BIL CYFIAWNDER TROSEDDOL A'R LLYSOEDD

Memorandwm rhif 2: Darpariaethau'n ymwneud â throstedd camdriniaeth neu esgeulustod bwriadol gan weithwyr gofal

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Yn ôl Rheol Sefydlog 29, rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a gall Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei gyflwyno, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cyfiawnder Trosteddol a'r Llysoedd (y "Bil") gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Chwefror 2014. Gellir gweld y Bil yn:
<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/criminaljusticeandcourts.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw gwneud diwygiadau eang eu cwmpas i'r system gyfiawnder yn ogystal â darpariaethau wedi'u targedu i ddiogelu'r cyhoedd yn well a lleihau aildrosteddu.
4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch y canlynol:
 - dedfrydu a rhyddhau ac adalw troseddswyr
 - monitro troseddswyr a ryddheir ar drwydded yn electronig
 - cadw troseddswyr ifanc
 - llysoedd a thribiwnlysoedd gan gynnwys gweithdrefn newydd i'w defnyddio mewn achosion troseddol yn y llysoedd ynadon o dan amgylchiadau penodol
 - amgylchiadau pan all yr Uchel Lys a'r Tribiwnlys Uchaf wrthod rhyddhad mewn adolygiadau barnwrol

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

5. Cyflwynwyd darpariaeth drwy gyfrwng gwelliannau i'r Bil a gyflwynwyd ar 10 Mehefin gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y Gwir Anrh. Chris Grayling, AS, i sicrhau bod esgeulustod bwriadol neu gamdriniaeth gan ofalwyr yn drosedd. Mae'r ddarpariaeth yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
6. Y gwelliannau yn y Bil sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yw Cymalau Newydd 45, 46, 47, 48, 49 a 50, Atodlen 2 Newydd a gwelliannau 47, 48 a

49. Gwelliannau canlyniadol yw gwelliannau 47 a 48 i sicrhau bod y cymalau newydd a'r Atodlen yn ymestyn i Gymru.
7. Mae cymal newydd 45 yn cyflwyno trosedd o gam-drin neu esgeuluso bwriadol gan weithiwr gofal a delir i roi gofal iechyd, ac eithrio gofal iechyd eithriedig fel y nodir yn Atodlen 2 newydd, neu ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n nodi'r cosbau os ceir collfarn am y drosedd newydd.
 8. Mae cymal newydd 46 yn cyflwyno trosedd a gyflawnir gan ddarparwyr gofal, h.y. cyrff ac unigolion penodol sy'n darparu neu'n trefnu gofal iechyd, ac eithrio gofal iechyd eithriedig, neu ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n gymwys pan fo unigolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso'n fwriadol yn sgil achos difrifol o dordyletswydd gofal gan y darparwr gofal.
 9. Darparwyr gofal eithriedig at ddibenion cymal newydd 46, sy'n ymwneud â darparwyr gofal, yw awdurdodau lleol sy'n cyflawni eu swyddogaethau ehangach o ran gwasanaethau plant a sefydliadau eraill sy'n cyflawni'r swyddogaethau hynny ar ran awdurdod lleol.
 10. Mae cymal newydd 48 yn nodi'r cosbau sydd ar gael yn sgil collfarn am y drosedd yng nghymal newydd 46 sy'n ymwneud â darparwyr gofal. Bydd gan lysoedd bwerau i osod dirwyon neu wneud gorchmynion adfer neu gyhoeddusrwydd.
 11. Mae cymal newydd 49 yn nodi sut y caiff y drosedd newydd yng nghymal newydd 46 sy'n ymwneud â darparwyr gofal ei chymhwyso mewn perthynas â chymdeithasau anghorfforedig, gan gynnwys partneriaethau.
 12. Mae Atodlen 2 newydd yn eithrio o gwmpas y drosedd yng nghymal newydd 45 ofal iechyd a ddarperir mewn lleoliadau addysg a gofal plant penodol.
 13. Mae'r darpariaethau a ddisgrifir uchod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
 14. Nid yw'r darpariaethau yn cynnwys unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
 15. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â lles cymdeithasol ac amddiffyn plant ac oedolion ifanc a'u lles. Maent hefyd yn ymwneud â'r gofal a roddir i blant, oedolion ifanc, unigolion agored i niwed ac unigolion hŷn y nodir pob un ohonynt o dan y pennawd Lles Cymdeithasol ym mharagraff 15 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

16. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf

ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae iddo'r fantais hefyd o sicrhau y gellir dod â'r ddarpariaeth hon i rym yng Nghymru a Lloegr ar yr un pryd.

Goblygiadau ariannol

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Mark Drakeford AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mehfin 2014